# DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG / WRITTEN STATEMENTS OF OPINION

## A GYFLWYNWYD / TABLED ON 15/03/2006

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
R Signifies the Member has declared an interest

**OPIN-2006- 0027- Iawndal i Gyn-aelodau y Lluoedd Arfog a fu'n dystion i Brofion Niwclear / Nuclear Test Veterans Compensation**

**Codwyd gan / Raised By:** Lisa Francis

**Tanysgrifwyr / Subscribers:**
Mark Isherwood
Nick Bourne
Jenny Randerson
Christine Chapman

**Iawndal i Gyn-aelodau y Lluoedd Arfog a fu'n dystion i Brofion Niwclear**

Mae'r Cynulliad hwn yn nodi barn y Bwrdd Cenedlaethol Diogelwch Radiolegol yn dilyn ei arolwg o'r achosion o farwolaeth a chanser ymysg cyn-aelodau y lluoedd arfog a fu'n dystion i brofion niwclear.

Mae'r Cynulliad hwn yn annog Llywodraeth y DU i dalu iawndal yn ddiymdroi i'r cyn-aelodau hynny o'r lluoedd arfog sydd wedi dioddef o lewcemia a myolema ymledol (neu i wŷr/gwragedd/partneriaid y rhai sydd eisoes wedi marw o lewcemia a myolema ymledol); ac mae'n galw ar y Weinyddiaeth Amddiffyn i sefydlu Adolygiad Barnwrol i ganfod a ddioddefodd cyn-filwyr y lluoedd arfog a fu'n dystion i brofion niwclear feintiau gormodol o ymbelydredd fel yr awgryma adolygiad ystadegol y Bwrdd Cenedlaethol Diogelwch Radiolegol.

**Nuclear Test Veterans Compensation**

This Assembly notes the view of the National Radiological Protection Board following its survey of the mortality and cancer incidence of the nuclear test veterans.

This Assembly urges the UK Government to pay immediate compensation to those veterans who have suffered from leukaemia and multiple myolema (or to surviving spouses/ partners of those who have already died from leukaemia and multiple myolema); and calls upon the Ministry of Defence to initiate a Judicial Review to determine whether the nuclear test veterans were exposed

to excessive amounts of radiation as the statistical review of the National Radiological Protection Board suggests.